# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2000

### Y Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r trefniadau trosiannol a wnaed ar ôl dileu'r Cynllun Cymorth Lleoedd mewn Ysgolion Annibynnol. Mae'r cefndir yn debyg i Reoliadau (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2000 a chyfeirir yr Aelodau at yr Adroddiad perthnasol ar y Rheoliadau hynny dyddiedig 9 Mehefin 2000.

Mae'r Rheoliadau'n newid y prawf moddion ariannol a'r taliadau ar gyfer grantiau am ddillad a theithio i ddisgyblion sy'n gymwys drwy ddiwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) 1997.

Mae Rheoliadau tebyg ar y gweill ar gyfer Lloegr. Bwriedir iddynt hwythau hefyd ddod i rym ar 1 Medi 2000, ond nid ydynt wedi'u gwneud hyd yn hyn.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

### Sylwadau Cyffredinol

Yn y Nodyn Esboniadol mae "travel grant" yn yr unigol yn Saesneg a "grantiau teithio" yn y lluosog yn Gymraeg.

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**9 Mehefin 2000**

Ein Cyf: LAD 01-01-125